



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Lynvor

Ynys Môn

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

8 Mehefin 2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Lynvor

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cartref gofal Oedolion heb ofal nyrsio
Darparwr cofrestredig	Prestwood Residential Homes Ltd a CareTech Community Services Limited
Lleuedd cofrestredig	4
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru	25 Hydref 2021
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant.

Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â ffocws a oedd yn ystyried y meysydd o'r gwasanaeth nad oedd yn bodloni'r rheoliadau gofynnol yn yr arolygiad blaenorol. Mae'r darparwr wedi cymryd camau yn dilyn yr arolygiad blaenorol ac mae hyn wedi gwella ansawdd y gwasanaeth y mae'r bobl yn ei dderbyn. Mae rheolwr bellach wedi ei benodi i oruchwylio'r gwaith o redeg y gwasanaeth yn ddiogel o ddydd i ddydd. Yn ogystal â hyn, mae rhywun yn ymgymryd â dyletswyddau'r unigolyn cyfrifol, sy'n cynnwys ymweld â'r gwasanaeth a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r gwaith cynnal a chadw ac adnewyddu diweddar a gwblhawyd yn gwella ansawdd yr amgylchedd lle mae'r bobl yn byw. Mae cynlluniau personol y bobl yn adlewyrchu eu hanghenion gofal a chymorth presennol, a sut y dylid eu diwallu. Mae hyn yn gwella ansawdd a chysondeb y gwasanaeth a gânt. Gwneir ymdrechion i alluogi'r bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, sy'n gwella eu hymdeimlad o lesiant.

Llesiant

Mae'r bobl yn mwynhau cydberthnasau diogel ac iach gyda'r rhai y maent yn cyd-fyw â nhw a'u teuluoedd. Cefnogir pob unigolyn i dreulio amser gyda'i berthnasau ac i ryngweithio â'i gymuned leol yn ddiogel. Mae hyn yn galluogi'r bobl i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn perthyn. Mae cynlluniau personol yn cofnodi'r lluo o wahanol weithgareddau y mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gymryd rhan ynddynt a hynny mewn amrywiaeth o leoliadau gwahanol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus i gael gwneud y pethau y maent yn eu mwynhau a'u bod yn edrych ymlaen at ddigwyddiadau arbennig.

Mae amgylchiadau unigol y bobl yn cael eu hystyried. Mae cynlluniau personol yn canolbwyntio ar unigolion ac yn darparu gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar barchu pobl fel unigolion, gan gydnabod a gwerthfawrogi eu hunaniaeth. Mae'r gofal a'r cymorth a ddarperir wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion pob person yn unigol, gan fod anghenion pob person yn hysbys ac yn cael eu cofnodi.

Mae'r amgylchedd yn addas ar gyfer diwallu anghenion y bobl: mae'n gyfforddus, yn cael ei gynnal yn dda, ac yn gartrefol. Mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r amgylchedd, sy'n gwella ymdeimlad y bobl o lesiant a gwerth.

Gwrandewir ar leisiau'r bobl ac ymatebir iddynt. Mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r gwaith o fonitro'r gwasanaeth ar lefelau rheoli a darparu. Golyga hyn fod mwy o gyfleoedd ar gael i'r bobl leisio eu barn am y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Mae adroddiadau'n cofnodi'r wybodaeth a gasglwyd gan y bobl, a'r camau a gymerwyd fel ymateb.

Gofal a Chymorth

Yn yr arolygiad diwethaf, rhoddwyd Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth i'r darparwr mewn perthynas â'r wybodaeth a gofnodwyd yng nghynlluniau personol y bobl. Ers yr arolygiad diwethaf, cymerwyd camau i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth fanwl am anghenion gofal a chymorth unigol y bobl, a sut y dylid eu diwallu. Rhoddir arweiniad ysgrifenedig i staff ynghylch y strategaethau sydd wedi'u profi i weithio ar gyfer y bobl, yn ogystal â'r hyn nad yw'n gweithio. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y bobl yn cael gofal a chymorth cyson sy'n addas ar eu cyfer. Mae asesiadau risg ar waith i gofnodi'r risgiau a nodwyd i lesiant a diogelwch y bobl, a sut y cânt eu rheoli. Caiff y cyfleoedd i bobl gymryd risgiau cadarnhaol eu gwerthuso a'u cefnogi, sy'n cynyddu annibyniaeth y bobl. Mae hyn hefyd yn annog y bobl i ddatblygu sgiliau newydd a chyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig iddynt. Cedwir cynlluniau personol dan adolygiad a chânt eu diweddarau pan fo angen.

Caiff y bobl eu hannog a'u cefnogi i ddilyn eu diddordebau a'u hobiau. Caiff mynediad i weithgareddau cymunedol ei hwyluso, sy'n galluogi'r bobl i ryngweithio'n gymdeithasol ac i wneud y pethau y maent yn eu mwynhau. Dywedodd y bobl wrthym beth oedd eu cynlluniau ar gyfer y diwrnod a beth oeddent yn edrych ymlaen at ei wneud dros yr wythnosau nesaf. Ar adeg ein hymweliad, roedd y rhan fwyaf o'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth allan yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol amrywiol, ac roedd gan bob un gynlluniau i gymryd rhan mewn gweithgaredd cymunedol yn ystod y dydd. Trefnir gwahanol weithgareddau ar gyfer y bobl, yn dibynnu ar hoffterau pob unigolyn a'r deilliannau unigol yr hoffai eu cyflawni.

Yr Amgylchedd

Darperir gofal a chymorth mewn amgylchedd sy'n hybu ymdeimlad y bobl o'u gwerth. Yn yr arolygiad diwethaf, nodwyd Maes i'w Wella mewn perthynas ag ansawdd yr amgylchedd. Mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r amgylchedd ffisegol ac mae hyn wedi gwella cyfforddusrwydd y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Gwelsom fod sawl rhan o'r cartref wedi'i hailaddurno a bod gwaith cynnal a chadw wedi'i gwblhau. Er enghraifft, mae'r ystafell fwyta wedi'i phlastro a'i phaentio ac mae carpedi newydd wedi'u gosod yn ystafelloedd unigol y bobl. Mae'r darparwr wedi nodi bod angen rhagor o waith adnewyddu ac mae cynlluniau ysgrifenedig ar waith o ran yr amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn. Mae'r bobl yn rhan o'r penderfyniadau a gaiff eu gwneud o ran y gwelliannau i'r gwasanaeth.

Roedd pob rhan o'r cartref a welsom yn lân ac yn daclus. Mae ystafelloedd unigol y bobl yn bersonol ac yn cynnwys eitemau sy'n adlewyrchu eu diddordebau ac sy'n helpu i greu naww gartrefol. Mae manau cymunol ar gael, a dywedodd y staff wrthym fod y bobl yn hoffi eu defnyddio. Dywedodd y staff wrthym fod cynlluniau ar y gweill i newid y soffas yn y brif lolfa ac i gyflwyno mwy o ddodrefn meddal ac addurniadau er mwyn gwneud yr ystafell hon yn fwy clyd. Bydd gwneud y gwelliannau hyn yn gwella effeithiau cadarnhaol yr amgylchedd ymhellach ar ymdeimlad y bobl o lesiant.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl deimlo'n hyderus fod trefniadau ar waith ar gyfer monitro'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Yn yr arolygiad diwethaf, nodwyd Maes i'w Wella mewn perthynas â diffyg ymweliadau'r unigolyn cyfrifol. Ers yr arolygiad diwethaf, gwnaed gwelliannau i'r ffordd y mae'r darparwr yn monitro safon y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r darparwr wedi penodi rhywun i ymgymryd â rôl yr unigolyn cyfrifol, ac mae cais wedi cael ei gyflwyno i'w gofrestru gydag AGC. Mae adroddiadau ar gael sy'n cofnodi ymweliadau rheolaidd yr unigolyn penodedig a'r gwiriadau a gwblhawyd i'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg. Mae'r adroddiadau'n cynnwys adborth gan y bobl sy'n byw yn y cartref am y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Bodlonwyd y Maes i'w Wella yn ystod yr arolygiad hwn.

Caiff y bobl eu cefnogi gan wasanaeth sy'n sicrhau bod rheolwr ar gael i oruchwylio'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth. Yn yr arolygiad diwethaf, rhoddwyd Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth i'r darparwr gan nad oedd gan y gwasanaeth reolwr. Ers yr arolygiad diwethaf, cymerwyd camau ac mae rheolwr, sydd wedi'i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, bellach wedi'i benodi. Y rheolwr sy'n gyfrifol am redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd ac mae'n sicrhau bod y gofal a'r cymorth a ddarperir yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r bobl yn elwa o gael mynediad at reolwr yn y gwasanaeth a gallant fynd ato os ydynt am drafod y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Dywedodd y staff wrthym fod y rheolwr yn rhoi cymorth da iddynt.

Crynodeb o'r Diffyg cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Amherthnasol
67	Rydych wedi methu yn eich dyletswydd i benodi rheolwr. Rhaid penodi rheolwr cymwys sydd â chymwysterau addas.	Cyflawnwyd
15	Nid oes gan y gwasanaeth gynlluniau personol digonol ar waith sy'n amlinellu sut y bydd unigolion yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol a'r camau a gaiff eu cymryd i liniaru risgiau a nodwyd. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod cynlluniau personol digonol ar waith i arwain staff ar ddarparu gofal a chymorth cyson yn o ddydd i ddydd.	Cyflawnwyd

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Amherthnasol
73	Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi ymweld â'r gwasanaeth yn bersonol er mwyn monitro perfformiad y gwasanaeth. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol ymweld o leiaf unwaith bob tri mis a darparu tystiolaeth bod ymweliadau yn cael eu cofnodi a'u dogfennu.	Cyflawnwyd
44	Rhaid i'r darparwr sicrhau bod gan y safle ddodrefn a chyfarpar addas.	Cyflawnwyd

Dyddiad cyhoeddi 25/08/2022